Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth Mid 03-02 (p4)

Dyddiad: 17 Mai 2002

Amser: 10.30 - 1.30pm

Lleoliad: Neuadd Pendre, Tywyn

CYNLLUN AMDDIFFYN YR ARFORDIR TYWYN

Crynodeb o'r sefyllfa bresennol i'w gyflwyno Bwyllgor Rhanbarth y Canolbarth gan Bob Daimond, Syrfewr Cyngor Gwynedd

1. CEFNDIR

1.1 Er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor o'r sefyllfa bresennol yngln â chynllun amddiffyn yr arfordir yn Nhywyn, crynhoir yma ychydig o hanes yr amddiffynfeydd presennol a'r cynllun arfaethedig.

1.2 Adeiladwyd y wal rhwng Warwick Place a Neptune Road yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yr oedd Tywyn ei hunan yn fwy na chilomedr o'r môr yr adeg hynny. Codwyd y Promenâd Fictoraidd yn 1889 ac eto, amwynder oedd hyn yn hytrach na wal y môr ac mae'n debygol na chyrhaeddodd y môr y wal o gwbl yn ystod y tri deng mlynedd canlynol.

1.3 Erbyn 1900 codwyd Rhodfa Sandilands i’r gogledd o Ffordd Sandilands. Disgynnodd hwn i’r môr yn 1935 fel canlyniad i storm. Bu cyfres o broblemau gyda’r holl waliau rhwng 1935 a 1950. Felly, erbyn 1951 yr oedd y waliau i gyd wedi eu cael eu cynnal gan beiliau dur a grisiau concrid fel y gwelir heddiw.

1.4 Tua diwedd y 1950au disgynnodd wal Neptune Hall a bu erydiad sylweddol fel canlyniad. Estynnwyd y promenâd i’r gogledd ac i’r de mewn nifer o sgemau yn ystod y 60au a’r 70au. Fel rhan o’r gweithiau yma adeiladwyd y grwynau pren, sydd erbyn hyn wedi cyrraedd diwedd eu hoes.

1.5 Dylwn bwysleisio’r ffaith fod y môr wedi symud yn nes at y tir dros y ganrif a hanner ers i’r wal gyntaf gael ei hadeiladu. Yn wir, mae tystiolaeth bendant yn dangos fod y traeth ger Warwick Place wedi gostwng 3 medr dros y 100 mlynedd diwethaf.

1.6 Ar ben hynny, mae problem o’r môr yn mynd dros y wal yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, ac mae llifogydd o dai tu ôl i’r wal yn digwydd yn amlach. Os na fydd gwaith o gwbl yn cael ei wneud bydd yr eiddo a’r promenâd yn dioddef mwy o lifogydd yn amlach ac yn y pen draw bydd y waliau presennol yn cael eu tanseilio gan y môr.

1.7 Mae erydiad gan y môr o’r holl arfordir rhwng Afon Dysynni ac Afon Dyfi yn broses barhaol ac anochel. Dros gyfnod, felly, bydd angen mwy a mwy o waith adeiladu amddiffynfeydd neu gynnal a chadw’r adeiladweithiau presennol i ddal y môr i ffwrdd o eiddo sydd ar lan y môr.

1.8 Y sefyllfa bresennol yn Nhywyn yw nad oes traeth o gwbl o flaen y promenâd am ran sylweddol o batrwm y llanw. Pan fydd y môr ar drai mae yna draeth deniadol sydd yn dywod ar y cyfan gyda ychydig o gerrig mân yma ac acw, ac am ran arall o’r amser mae’r môr yn cuddio’r traeth ac yn symud i fyny’r grisiau concrit. Gyda llanw uchel mae’r môr yn mynd at dop y wal a’r tonnau yn mynd dros y wal ac ar draws y promenâd ac mewn stormydd mawr mae’r sefyllfa yn gwaethygu ac yn beryglus.

2. CYFRIFOLDEBAU

2.1 Fel awdurdod lleol mae gan Gyngor Gwynedd bwerau i ymgymryd â gwaith amddiffyn yr arfordir. Nid dyletswydd yw hyn ond per dewisol.

2.2 Fel yr awdurdod sydd yn gyfrifol am y waliau neu’r amddiffynfeydd presennol a’r promenâd, mae gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb am gynnal a chadw’r adeiladweithaiu presennol mewn cyflwr diogel.

2.3 Nid oes gan Gyngor Gwynedd gyfrifoldeb am forglawdd y rheilffordd i’r gogledd o Dywyn gan mai cyfrifoldeb Cwmni Railtrack yw. Nid oes gan y Cyngor gyfrifoldeb

uniongyrchol nail ai am arfordir Penllyn i’r de o Dywyn ble mae gan Asiantaeth yr Amgylchedd y prif gyfrifoldeb, nac am arfordir Clwb Golff Aberdyfi.

2.4 Efallai bydd papur cefndir i’r Pwyllgor gan swyddogion y Cynulliad yn egluro’r sefyllfa yngln â chymeradwyaeth am gynlluniau o dan Ddeddf Amddiffyn yr Arfordir a’r sustem grantiau ar gyfer cynlluniau o’r fath gan y Cynulliad i Gynghorau Unedol. Rhag ofn na fydd dim papur cefndir ganddynt, mae’n well crynhoi’r sefyllfa. Nid yw Cynghorau Unedol, neu bartïon eraill yn ymgymryd a gweithiau o’r fath heb ganiatâd y Cynulliad (Swyddfa Gymreig gynt). Wedi caniatau’r gweithiau byddai’r Cynulliad fel arfer yn ariannu cynlluniau mwy trwy grant Deddf Amddiffyn yr Arfordir a Hawl Benthyg Atodol. Mae canran y gost sy’n cael ei ariannu gan y grant a’r Hawl Benthyg Atodol yn dibynnu ar faint y cynllun a gwariant hanesyddol y Cyngor. Yn yr achos yma byddai Cyngor Gwynedd yn disgwyl 75% o’r gost trwy’r grant a 25% fel Hawl Benthyg Atodol.

3. Y DDENG MLYNEDD DIWETHAF

3.1 Fel canlyniad Astudiaeth Rheolaeth Arfordir Meirionnydd yn 1993 nodwyd hyd yr arfordir rhwng Afon Dyfi ac Afon Dysynni fel un sydd mewn angen sylw.

3.2 Ym mis Tachwedd 1995 cynigwyd cynllun i’r Swyddfa Gymreig gan Gyngor Dosbarth Meirionnydd. Cynllun Strategol oedd hwn a oedd yn cynnwys rhannau o’r arfordir yng nghyfrifoldeb y Cyngor, Railtrack, Asiantaeth yr Amgylchedd a’r Clwb Golff. Cynigwyd y cynllun gyda chytundeb y cyrff eraill ar sail cydweithrediad ac yn ysbryd polisi cynhwysfawr a strategol a oedd gan y Llywodraeth y pryd hynny.

3.3 Ni chymeradwywyd y cynllun yma gan y Swyddfa Gymreig a bu i’r Cyngor ymateb i geisiadau niferus gan y Swyddfa Gymreig am fwy o wybodaeth, manylion pellach, ac eglurhad dros gyfnod o flwyddyn a hanner.

3.4 Wrth geisio symud y prosiect ymlaen cytunodd y Cyngor ym mis Ebrill 1997 gydag awgrymiad y Swyddfa Gymreig i gomisiynu "Ail Farn" ar y cynllun arfaethedig gan ymgynghorwyr annibynnol.

3.5 Derbyniwyd adroddiad ddrafft yr "Ail Farn" ym mis Tachwedd 1998. Craidd yr adroddiad oedd nad oedd y cynllun arfaethedig (yn arbennig y "grwynau cerrig" – "fishtail groynes") yn addas i’r arfordir yma a dylai pob hyd o’r arfordir gael ei ystyried ar ei rinwedd ei hun. Nid oedd canran y manteision yn erbyn y costau yn dderbyniol chwaith.

3.6 Cynhaliwyd cyfarfod ym mis Mawrth 1999, rhwng swyddogion o’r Swyddfa Gymreig, awdur yr "Ail Farn", swyddogion y Cyngor ac ymgynghorwr y Cyngor i drafod yr adroddiad. Eglurwyd yn y cyfarfod yma na fyddai cynllun gyda "grwynau cerrig" yn

cael ei dderbyn gan y Swyddfa Gymreig a bod rhaid i'r Cyngor wneud bidiau yn y dyfodol ar sail rhannau gwahanol o'r arfordir gyda phob un yn dangos manteision digonol i gyrraedd trothwy arferol y Llywodraeth. Eglurwyd hefyd y byddai arian y Swyddfa Gymreig (trwy Grant Deddf Amddiffyn yr Arfordir) ar gael am y gweithiau llai angenrheidiol i ddatrys y problemau.

3.7 Adroddwyd i'r Pwyllgor priodol ar y sefyllfa a phenderfynwyd yn ffurfiol i beidio â bwrw ymlaen gyda'r cynllun gwreiddiol ac i ddatblygu cynllun(iau) a fyddai'n datrys y prif broblemau oedd yn gyfrifoldeb uniongyrchol i'r Cyngor mewn dull a fyddai'n dderbyniol i'r Swyddfa Gymreig.

3.8 Oherwydd y penderfyniad yma golygai y byddai'n rhaid i staff yr Adran a'i ymgynghorwr ddatblygu cynllun yn seiliedig ar gerrig mawr, atgyweirio'r wal bresennol ac adeiladu wal ar dop yr amddiffynfeydd atal llifogydd. Cynhaliwyd cyfres o brofion yn labordy H.R. Wallingford i ddatblygu'r cynllun mwyaf effeithiol posibl.

3.9 Canlyniad y gwaith yma yw'r cynllun presennol. Cyflwynwyd y cynllun i Gyngor Tref Tywyn ar 11 Gorffennaf 2001 a chefnogwyd y cynllun ganddynt. Yn ystod yr wythnosau canlynol cafwyd gwrthwynebiad cryf gan rhai o'r bobl leol ac yr oedd adroddiadau yn ymddangos yn y wasg lleol yn rheolaidd. Trefnwyd deiseb gyda 8,000 wedi ei llofnodi yn erbyn y Cynllun. Cynhaliwyd arddangosfa gyhoeddus o'r cynllun yn Nhywyn ar 8 Awst 2001. Cynhaliwyd cyfarfod arbennig o Gyngor Tref Tywyn ar 29 Awst 2001 pryd y penderfynwyd tynnu cefnogaeth y Cyngor Tref am y cynllun presennol yn ôl.

3.10 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng swyddogion y Cyngor a chynrychiolwyr y gwrthwynebwyr ar 13 Rhagfyr 2001. Yn ystod y cyfarfod hwnnw daeth i'r amlwg nad oedd y gwrthwynebwyr yn deall beth oedd maint y cynllun presennol, nac hyd yn oed beth fyddai gwir effaith y cynllun gwreiddiol.

3.11 Mewn cyfarfod yn Nhywyn ar 19 Ebrill 2002 o dan Gadeiryddiaeth y Cyngor Tref bu cyfle i'r gwahanol bartïon – sef aelodau'r Cyngor Tref, yr Arglwydd Elis-Thomas, aelodau lleol Cyngor Gwynedd, cynrychiolwyr Grp Amddiffyn Arfordir Tywyn ac Aberdyfi, swyddogion y Cyngor, Dr. Phil Barber (ymgynghorwr i'r Cyngor) a Mr. Tom Coates (awdur yr "Ail Farn") i drafod y sefyllfa.

3.12 Un canlyniad o'r cyfarfod yma oedd fod pawb yn cytuno fod y gwaith arfaethedig o flaen Bryn y Môr yn angenrheidiol ac yn dderbyniol. Nid oedd cytundeb ar y sefyllfa o flaen y Promenâd Fictoraidd. Cytunwyd i gynrychiolwyr Grp Amddiffyn Arfordir Tywyn ac Aberdyfi gyfarfod â Dr. Barber a swyddogion y Cyngor unwaith eto i drafod yn fwy manwl yr opsiynau ar hyd y promenâd.

4. CASGLIAD

4.1 Er nad yw geiriad polisi’r Cynulliad wedi newid, mae barn eang fod y ffordd mae’r polisi yn cael ei weithredu wedi newid yn ystod y 90au. Cadarnhawyd y ddealltwriaeth yma gan Mr. Coates, Dr. Barber a’r Arglwydd Elis-Thomas ar 19 Ebrill 2002.

4.2 Mae’r môr wedi nesau at Dywyn dros ganrif a hanner, ac yn ystod y ganrif ddiwethaf mae’r traeth wedi gostwng oddeutu 3 medr.

4.3 Nid yw’n ymarferol mewn termau technegol nac ariannol i adfer y traeth i’r un lefel ag yr oedd yn 1900. Ers y cyfarfod ar 19 Ebrill 2002 mae Mr. Coates wedi ysgrifennu at y Cyngor yn dweud y byddai ail sefydlu’r traeth tywod yn costio llawer mwy na £20M gyda chost o dros £1M y flwyddyn i’w gynnal wedyn.

4.4 Nid yw’r cynllun presennol a gynigir gan y Cyngor yn effeithio cymaint ar y traeth ac y mae’r gwrthwynebwyr yn feddwl.

4.5 Os nad yw cerrig mawr yn cael eu defnyddio o flaen y wal bresennol bydd y môr yn mynd dros y wal yn fwy aml a bydd y bygythiad o lifogydd i eiddo yn cynyddu.

4.6 Yr oedd y "cynllun gwreiddiol" yn rhy uchelgeisiol ac yn anffodus wedi codi disgwyliadau pobl leol ac ymwelwyr dros yr hyn oedd yn bosibl i’w gyflawni.

R.B. Daimond

B.Sc., C.Eng., FICE, FIHT,

Syrfewr y Cyngor